**Y Pwyllgor Diwylliant CC-6-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 13 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lle:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Holly Pembridge (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Adam Peat (Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant)

Gwyn Griffiths (Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol)

Prys Davies (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg)

Mary Davies (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Dafydd Wigley
    - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru
    - wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru

**Sylwadau Rhagarweiniol**

Ceisiodd y Cadeirydd, a chafodd, gydsyniad i ddau gyfarfod pnawn Iau ychwanegol yn y tymor a oedd i ddod – 25 Ebrill a 27 Mehefin.

Yna gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ynghylch ariannu cerddoriaeth siambr yng Nghymru.

**Darpariaeth Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru**

Pwysleisiodd y Gweinidog fod y cyhoeddiad yngl•n ag ariannu cerddoriaeth siambr yng Nghymru, er gwaethaf y sylw yn y wasg, yn "newyddion da". Y cefndir oedd i gynnig ynghylch sut i wella mynediad at gerddoriaeth siambr gael ei gyflwyno ym Mai 2001. Gan fod datblygiad cerddoriaeth siambr ymhlith blaenoriaethau’r Gweinidog ac yn un o amcanion cynllun datblygu pum-mlynedd Cyngor Celfyddydau Cymru, ymchwiliwyd i’r cynigion. Cafwyd asesiad arbenigol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a gynghorodd mai’r ffordd orau o wireddu amcanion y Gweinidog oedd neilltuo cyllid i nifer o gerddorfeydd mewn dosbarthiad teg ar draws Cymru.

Roedd y Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi dyraniad o £150,000 yn ei datganiad cyllideb ar 22 Tachwedd a chroesawyd hynny gan y Gweinidog yn ei hadroddiad i’r Pwyllgor ar 5 Rhagfyr.

Roedd wedi nodi y byddai'r cyllid yn helpu i gynyddu'r nifer o berfformiadau siambr ledled Cymru, i dargedu ardaloedd nad oedd yn cael llawer o gyfle i fwynhau digwyddiadau cerddoriaeth glasurol ac i gyfrannu at ddatblygiad cerddorol pobl ifanc. Roedd trafodaethau ar y gweill â nifer o gyrff a byddai cyhoeddiadau pellach yn cael eu gwneud ynghylch dyraniadau grant.

Wrth ateb pryderon ynghylch peidio â sianelu'r arian trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod a32 yn Neddf Llywodraeth Cymru yn nodi

> "The Assembly may do anything appropriate to support [at sub section d] the arts, crafts, sport or other cultural or recreational activities in Wales".

Dywedodd y Gweinidog fod hwn yn rym y bwriadai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ddefnyddio ac nad oedd rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru fod yn unig sianel ar gyfer cyllid i wireddu amcanion y Llywodraeth. Nid oedd reswm yn y byd pam na ddylai arian gael ei sianelu trwy lywodraeth leol, sy'n bartner allweddol yn y gwaith o wella bywyd diwylliannol yng Nghymru, a dyna oedd wedi digwydd yn yr achos hwn.

O ran sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gofyn am adroddiadau blynyddol gan unrhyw gyrff a ariennid.

Wrth ymateb i awgrymiadau bod cefnogi cerddoriaeth siambr yn anghyson â pholisi'r Llywodraeth, dyfynnodd y Gweinidog yn helaeth o "Dyfodol Creadigol" a brofai nad oedd hynny'n wir.

Wrth drafod, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Trwy gyhoeddi'r cyllid yn y datganiad cyllideb cyn i'r mater ddod gerbron y Pwyllgor, nid oedd y drefn arferol wedi ei dilyn. Roedd yn bwysig i bobl allu gweld y broses a gweld ei bod yn agored ac atebol. Cafwyd llythyrau gan bobl yn honni nad oedd y broses wedi ei dilyn mewn ffordd agored ac nad oeddent wedi cael cyfle i wneud cais am gyllid.

- Dywedodd un Aelod ei bod yn gofidio bod stori newyddion da wedi ei thrafod yn modd hwn; ond yn gofidio hefyd na chafwyd datganiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod.

- Roedd pryder mai'r Gweinidog Cyllid oedd wedi gwneud y cyhoeddiad, a chan nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, nad oedd modd i'r Pwyllgor hwnnw ei herio.

- Mynegwyd pryder hefyd yngl•n â defnyddio pwerau a32 a allai gael eu hystyried yn anegwyddorol neu'n annheg. Awgrymodd un aelod fod hyn yn groes i'r egwyddor "hyd braich" o gyllid i'r celfyddydau fel yr oedd yn cael ei fynegi yn "Diwylliant Cytûn" ym mharagraffau 4.8 a 4.11. Roedd teimlad hefyd y gallai gwariant ar y celfyddydau gael ei

ystumio petai adnoddau sylweddol yn cael eu cyfeirio oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru. Roedd yn iawn i'r Cynulliad fod yn ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau cenedlaethol fel Canolfan y Mileniwm, ond ni ddylai hynny ddigwydd yn achos cynlluniau lleol fel cerddorfeydd siambr.

Wrth ymateb i'r drafodaeth, dywedodd y Gweinidog:

- Fod ei chyhoeddiad ar 5 Rhagfyr yn ei gwneud yn glir bod y cyllid ar gyfer mwy nag un gerddorfa.

- Er mai trwy Awdurdodau Lleol y byddai'r cyllid yn cael ei sianelu, byddai dyletswydd ar y cerddorfeydd i berfformio ledled Cymru ac mewn mannau hawdd eu cyrraedd fel ysgolion a neuaddau pentref.

- Roedd trafodaethau wedi eu cynnal â Chyngor Celfyddydau Cymru yngl•n â'r prosiect a byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pryd y cynhaliwyd y rhain, ac yn arbennig a oeddent wedi digwydd cyn datganiad 22 Tachwedd.

- Nid hwn oedd yr unig brosiect i gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad. Ar wahân i Ganolfan y Mileniwm, nodwyd Cyngor Llyfrau Cymru, Undeb Gwyddbwyll Cymru, y gronfa Cerddoriaeth i Ieuenctid a phrosiect Prifddinas Diwylliant fel enghreifftiau.

- Roedd cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn "Dyfodol Creadigol".

Wrth ymateb i gwestiwn yngl•n â'r niferoedd y gwrthodwyd cyllid iddynt, dywedodd y Gweinidog nad oedd neb wedi ei wrthod hyd y gwyddai. Er hynny, roedd rhai'n dal i gredu fod pobl wedi cael gwybod nad oeddent yn cydymffurfio â meini prawf amhenodol ar gyfer yr arian.

Roedd aelodau hefyd yn dymuno gwybod pryd y dechreuwyd trafod â cherddorfa Abertawe, ac a oedd hynny wedi digwydd cyn cyhoeddiad y Gweinidog ym mis Tachwedd. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pwy oedd wedi gofyn am gynlluniau busnes gan y cerddorfeydd oedd yn cyflwyno cais. Cytunodd hefyd i ysgrifennu yngl•n â'r anghysondeb ymddangosiadol â'r polisi a nodwyd yn "Diwylliant Cytûn".

Yn olaf, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru i ofyn a fyddai'n ddefnyddiol iddi hi gael trafod y mater ymhellach â'r Pwyllgor.

**<u>Eitem 1: Yr Adolygiad o'r Gymraeg:</u>**

**Papurau: CC 6-02 (p.1-3)**

Gan fod y drafodaeth ar gerddoriaeth siambr wedi mynd â chymaint o amser y Pwyllgor, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gohirio trafod y papur ar dechnoleg newydd, ond yn dilyn ystyriaeth o fewnfudo ac allfudo, y byddai Delyth Evans yn adrodd yn ôl ar y drafodaeth ar yr iaith yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 6 Mawrth, ac yn cyflwyno diffiniad o ddwyieithrwydd yr oedd Aelodau Llafur y Pwyllgor wedi cytuno arno.

**Mewnfudo ac Allfudo**

Cyflwynodd y Cadeirydd y mater hwn a gofynnodd i'r aelodau ystyried dau fater:

- A oedd hwn yn fater allweddol bwysig; ac os oedd
- A ddylid ei ystyried yng nghyd-destun "cadarnleoedd" y Gymraeg ac yng nghyd-destun cymunedau cynaliadwy.

Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Roedd pob aelod yn gytûn bod symudiadau poblogaeth yn cael effaith ar ddyfodol yr iaith.

- Wrth ymateb i awgrym y gallai siaradwyr Cymraeg a symudai i ardaloedd di-Gymraeg gael dylanwad buddiol ar yr iaith, eglurodd y Cadeirydd fod angen i fás critigol o bobl (tua 70%), siarad yr iaith er mwyn iddi oroesi mewn rhai cymunedau.

- Awgrymwyd mai allfudo a mynd i'r afael â'r rhesymau pam y mae pobl yn gadael ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf i'r Pwyllgor. Awgrymwyd tri maes allweddol:

- Economaidd

- Tai
- Ansawdd bywyd a'r gwasanaethau sydd ar gael.

- Cytunwyd ar y rhain ynghyd â'r cynnig y dylem fod yn ceisio creu cymunedau cynaliadwy yn yr ardaloedd y mae pobl yn eu gadael. Er mwyn i bolisi o'r fath gael ei wireddu byddai angen cyfraniad Pwyllgorau a Gweinidogion eraill.

Rhoddwyd peth ystyriaeth (byddai trafodaethau manwl yn y dyfodol) i rwystro allfudo. Un awgrym oedd y gellid symud rhannau o'r gwasanaeth sifil gan y gallai hwnnw gynnig swyddi o safon a chyflogau da. Tanlinellwyd pwysigrwydd Twristiaeth i gadarnleoedd y Gymraeg hefyd ac awgrymwyd y gallai ymagwedd ddwyieithog mewn twristiaeth helpu i gynyddu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig. Cafwyd gair o rybudd gan un aelod, fodd bynnag, a ddywedodd y gallai

gefnogi polisïau yn y farchnad dai a fyddai'n helpu pobl leol, ond na allai gefnogi unrhyw bolisïau a allai fygwth hawliau pobl a oedd yn dymuno symud i mewn i ardal.

Nododd Dafydd Wigley y gall mewnfudo gael effaith ddifrifol ar hyfywedd yr iaith mewn rhai cymunedau, ond oherwydd deddfau Ewropeaidd ar symudiad rhydd pobl efallai na fyddai'n ymarferol nac yn ddymunol ystyried unrhyw gyfyngiadau. Er hynny, ni ddylai hynny rwystro cynigion i helpu i sicrhau y gall pobl frodorol (Cymraeg neu Saesneg eu hiaith) gael tai a gwaith yn eu cymunedau eu hunain. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r agwedd hon.

Trafododd y Pwyllgor hefyd ymhle y dylai prif bwyslais ei bolisïau fod ac a ddylid eu canoli ar gadarnleoedd y Gymraeg. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid cael strategaeth genedlaethol ond â mesurau arbennig ar gyfer y cadarnleoedd. Cododd hyn beth pryder ynghylch sut i ddarparu adnoddau yn deg ar gyfer unrhyw strategaeth gan ei bod yn annhebygol y byddai digon o gyllid ar gyfer popeth yr hoffai'r Pwyllgor ei wneud.

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal : 6 Mawrth**

Roedd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi trafod yr adolygiad o'r iaith ar 6 Mawrth. Roedd Delyth Evans wedi mynychu'r cyfarfod ar ran y Pwyllgor.

Dywedodd Delyth Evans fod penderfyniad y Pwyllgor i roi'r iaith yng nghyd-destun cyfle cyfartal yn ddefnyddiol iawn ac felly hefyd eu hargymhelliad y dylid darparu gwasanaethau yn newis iaith pobl. Roedd y Pwyllgor wedi dweud bod hyn yn arbennig o bwysig i'r henoed, pobl sâl a phlant bach a fyddai'n aml yn ei chael yn anodd defnyddio eu hail iaith. Dywedodd Will Bee o'r Comisiwn Hawliau Anabledd fod pobl wedi cael eu cynghori i beidio â chodi eu plant yn y Gymraeg oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi trafod Addysg a'r angen i ddarpariaeth fod yn hyblyg gan ymateb i anghenion gwahanol mewn gwahanol ardaloedd. Roedd hyn yn arbennig o wir am addysg Gymraeg ei chyfrwng lle roedd disgyblion yn aml yn gorfod teithio ymhell er mwyn cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, dywedodd y Cadeirydd iddo weld copi o'r llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Yn hwnnw, roedd y Bwrdd yn cadarnhau y byddai'n falch o weithredu fel ymgynghorydd sefydlog i'r Pwyllgor. Roedd y llythyr hefyd yn chwalu'r argraff a gafwyd o drafodaeth y Pwyllgor, sef mai yn ddiweddar yr oedd y Pwyllgor wedi cael tröedigaeth at y syniad bod rhyngberthynas gref rhwng yr iaith a'r agenda cyfle cyfartal.

**Dwyieithrwydd**

Rhoddodd Delyth Evans awgrym o ddiffiniad o Ddwyieithrwydd gerbron:

*"Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog fe fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gyfartal.  Ystyr Cymru ddwyieithog yw gwlad lle mae pobl yn medru dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng un neu'r ddwy iaith; gwlad lle mae presenoldeb dwy iaith genedlaethol, ynghyd â ieithoedd a diwylliannau amrywiol eraill, yn ffynhonnell balchder a nerth."*

Croesawyd y diffiniad gan y Pwyllgor. Roedd cytundeb mai datganiad syml oedd ei angen, yn diffinio ystyr dwyieithrwydd ond nid sut i'w sicrhau.

Cafwyd un awgrym y dylid ychwanegu hyn at y datganiad – "Mae Cymru yn wlad sydd â mesurau cadarnhaol i gefnogi cynnydd yn y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg." Ni chytunwyd i hyn er y cafwyd awgrym y gellid cefnogi'r datganiad creiddiol â chyfres o ddatganiadau o egwyddor fel yr ychwanegiad a gynigiwyd.

Cytunodd yr aelodau. fodd bynnag, i newid trefn "Cymraeg a Saesneg" yn y datganiad. Gofynnwyd i Lorraine Barrett fynd â'r fersiwn diwygiedig i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yr wythnos ganlynol.

Yn olaf, diolchwyd i Delyth Evans am ei gwaith.

**<u>Cynllunio Ieithyddol</u>**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ail bapur a baratowyd i'w drafod dan yr adolygiad.

Gofynnwyd i John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a Meirion Prys Jones, sy'n gyfrifol am gynllunio ieithyddol, ymuno â'r drafodaeth a gwneud datganiad.

Dywedodd John Walter Jones fod y Pwyllgor yn dod i gasgliadau tebyg iawn i rai'r Bwrdd. Roedd yn bwysig bod â pholisïau cenedlaethol a fyddai, tra'n cydnabod gwahaniaethau ieithyddol, yn berthnasol i bawb. Dadleuent na fyddai polisïau unffurf, na pholisïau nad oedd ar gyfer Cymru gyfan, yn gweithio. Credai John Walter Jones fod y Pwyllgor wedi cyrraedd cam pwysig yn ei gydnabyddiaeth y byddai'n rhaid i'r Cynulliad cyfan fod yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau Cymru ddwyieithog.

Ychwanegodd Meirion Prys Jones fod y prif elfennau wedi eu nodi yn nogfen "Gweledigaeth a Chenhadaeth" y Bwrdd. Y meysydd allweddol o ran cynyddu niferoedd y bobl a allai siarad Cymraeg oedd trosglwyddo iaith ac addysg feithrin. Roedd y Bwrdd yn dymuno adeiladu ar y seiliau a oedd wedi eu gosod ym mhob un o'r pedwar maes cynllunio ieithyddol.

Yna gofynnodd y Pwyllgor gyfres o gwestiynau i'r Bwrdd, y byddent, oherwydd prinder amser, yn ymateb iddynt yn ysgrifenedig:

- Sylwadau ar rannu adnoddau yn y dyfodol ac ar effaith gwario'r rhan fwyaf yn y cadarnleoedd
- Sut i symud ymlaen dan bob un o'r pedwar pennawd cynllunio ieithyddol
- Ai'r gweithgareddau presennol yngl•n â'r iaith yw'r ateb, neu a yw'r adolygiad wedi codi posibiliadau eraill?
- Beth fyddai blaenoriaethau'r Bwrdd – cryfhau'r Mentrau Iaith, er enghraifft; yr angen i fonitro addysg Gymraeg ei chyfrwng.

Holodd un aelod yngl•n ag effaith bosibl papur gan Bwyllgor y Rhanbarthau ar hawl dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswylio yn rhydd o fewn tiriogaeth yr Aelod Wladwriaethau, ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Cytunwyd i ofyn i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am gyngor.

Awgrymwyd y dylai cynllunio ieithyddol fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor, gyda throsglwyddiad iaith o fewn teuluoedd a defnyddio'r iaith mewn cymunedau yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer adnoddau. Cefnogwyd hyn. Dywedwyd mai'r prif nod oedd gwneud y Gymraeg yn iaith gymuned fyw, gan gynyddu'r niferoedd sy'n ei deall, ei siarad ac yn dewis ei defnyddio.

I orffen, dywedodd y Bwrdd eu bod yn cytuno â barn y Pwyllgor. Eu blaenoriaethau oedd:

- Cynyddu'r nifer o bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg
- Cryfhau cymunedau

- Cryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau
- Cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Dywedodd y Bwrdd fod Marchnata'r iaith yn faes o dwf allweddol, sef cynyddu ymwybyddiaeth pobl o fentrau iaith.

**<u>Eitem 2: Cyflwyniad Llafar gan Cywaith Cymru (Artworks Wales)</u>**

Cyflwynodd y Cadeirydd Tamara Krikorian (Cyfarwyddwr) a Simon Fenoulhet (Dirprwy Gyfarwyddwr) i'r Pwyllgor. Â chymorth sioe sleidiau, rhoesant gyflwyniad ar waith Cywaith Cymru.

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Sefydliad annibynnol oedd Cywaith Cymru a ffurfiwyd yn 1981 i hyrwyddo a threfnu prosiectau/gweithgareddau celfyddyd gyhoeddus, gan gynnwys rhai ym meysydd celf, pensaernïaeth, addysg, dylunio amgylcheddol a dylunio trefol.
- Roedd y sefydliad wedi ymrwymo i'r Gymraeg ac yn gweithio dan bolisi Iaith Gymraeg.

- Roedd dwy ran i waith Cywaith Cymru, sef dylunio/datblygu strategol a rhaglenni artistiaid preswyl. Roedd cysylltiadau gwaith agos a phroffesiynol wedi datblygu â chymunedau yng Nghymru. Byddai artistiaid yn cael eu rhoi mewn ysgolion, ysbytai a charchardai etc ac yn gweithio â chymunedau.
- Trefnwyd rhaglenni o arddangosfeydd a seminarau i hwyluso ymwneud artistiaid â phrosiectau cymdeithasol ac adfywio trefol. Roedd y digwyddiadau hyn yn caniatáu cyswllt â phobl broffesiynol ym maes iechyd a rheoli gwasanaethau.
- Rhoddodd Simon Fenoulhet amlinelliad o brosiectau llwyddiannus penodol a gafodd eu harwain gan Cywaith Cymru: wal addurnol Pontypridd, meddygfa yn y Gurnos, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Pont Ddyfi ym Machynlleth a Pharc Arfordir y Mileniwm yn Llanelli.
- Bu Cywaith Cymru yn annog awdurdodau lleol i gynnwys artistiaid mewn prosiectau lleol. Roedd dau gynllun newydd wedi cychwyn: "Cynlluniau Artistiaid eu Hunain" (rhaglen breswyl) ac "Artistiaid mewn Diwydiant".

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gynnig sylwadau:

- Diolchodd yr aelodau i Cywaith Cymru am eu cyflwyniad a chymeradwywyd gwaith da y sefydliad.
- Holwyd a oedd Cywaith Cymru yn ymwneud â'r Comisiwn Dylunio. Nid oedd Cywaith Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Comisiwn, ond roedd ei gydweithwyr.
- Roedd aelodau am gael gwybod a oedd yna unrhyw raglenni i helpu cymunedau i gydnabod eu hanes eu hunain. Eglurodd y cyflwynwyr fod trafodaethau ar y gweill yn gyson â gwahanol grwpiau a'u bod yn eu helpu i gael synnwyr o hanes a chymuned.

- Gofynnodd un aelod sut y byddai cymunedau'n cael at gyngor gan Cywaith Cymru. Dywedwyd wrth aelodau mai swyddogion datblygu celfyddydau awdurdodau lleol oedd y man cyswllt cyntaf, a fyddai wedyn yn cyfeirio ymholiadau at Cywaith Cymru.
- Roedd Cywaith Cymru yn teimlo ei bod weithiau'n anodd cael awdurdodau lleol i ymwneud â phrosiectau yn y cyfnod cynllunio. Nid oedd dyletswydd statudol i gelfyddyd gyhoeddus gael ei hystyried, fel rhan o'r broses gynllunio. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Comisiwn Dylunio yn amlinellu'r broblem hon.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**